**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 3 Tachwedd 2022 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | B Hopkins | N L Matthews |
| S Bennett | D H Hopkins | P M Matthews |
| P N Bentu | O G James | J D McGettrick |
| P M Black | L James | H M Morris |
| P Downing | Y V Jardine | F D O'Brien |
| C R Doyle | A J Jeffery | A J O'Connor |
| M Durke | D H Jenkins | C L Philpott |
| C M J Evans | M H Jones | J E Pritchard |
| V M Evans | M Jones | S Pritchard |
| C R Evans | S M Jones | A Pugh |
| E W Fitzgerald | L R Jones | S J Rice |
| R Fogarty | J W Jones | K M Roberts |
| N Furlong | S Joy | B J Rowlands |
| L S Gibbard | E T Kirchner | R V Smith |
| F M Gordon | H Lawson | A H Stevens |
| K M Griffiths | M B Lewis | R C Stewart |
| H J Gwilliam | R D Lewis | L G Thomas |
| J A Hale | W G Lewis | M S Tribe |
| V A Holland | A S Lewis | G D Walker |
| C A Holley | P Lloyd | L V Walton |
| P R Hood-Williams | M W Locke | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A Davis, A M Day, R Francis-Davies, S E Keeton, E J King, P N May, W G Thomas a/ac R A Williams

## 70. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a allai fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Gynghorwyr a Swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd taflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw gysylltiad ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr P N Bentu, P Downing, M Durke, C M J Evans, Y V Jardine, L James, J W Jones, M H Jones, S J Rice, K M Roberts, G D Walker, T M White gysylltiad personol â Chofnod 77 "Gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016."
2) Datganodd y Cynghorydd N L Matthews bod iddo Fudd Personol a Rhagfarnol o Gofnod 79 "Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe - Kevin Johns MBE" a gadawodd cyn i'r eitem gael ei hystyried.
3) Datganodd y Cynghorydd C M J Evans gysylltiad personol â Chofnod 80 "Cwestiynau i Gynghorwyr – C5".

## 71. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2022.
2) Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022.

## 72. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredinol diwethaf y cyngor.

Nododd y Cynghorydd C A Holley ei fod hefyd wedi chwilio am wybodaeth am drosglwyddo adeiladau mewn perthynas ag ymateb 3.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 73. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Cydymdeimladau

#### i) Iris Richard, cyn-Arglwydd Faeres

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar Iris Richard, cyn-Arglwydd Faeres. Roedd Iris yn wraig i'r cyn-Arglwydd Faer a'r Cyn-gynghorydd, yr Henadur Anrhydeddus Ioan M Richard.

**ii) Y Cyn-gynghorydd Miles Thomas**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y Cyn-gynghorydd Miles Thomas. Bu Miles yn cynrychioli Ward Newton yn Ninas a Sir Abertawe rhwng 21 Hydref 2010 a 4 Mai 2017.

**iii) Y Cyn-gynghorydd Sonya Morris**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y Cyn-gynghorydd Sonya Morris. Bu Sonya yn cynrychioli Ward yr Uplands yng Nghyngor Dinas Abertawe o 1992 i 1996.

Safodd pawb a oedd yn bresennol mewn distawrwydd fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

**b) Gwobrau Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (CPALl) 2022**

Cyhoeddodd yr Aelod Llywyddol fod Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe wedi cyrraedd y rhestr fer mewn sawl categori yng Ngwobrau CPALl 2022. Mae'r Gwobrau'n cydnabod rhagoriaeth ym maes buddsoddiadau cronfeydd pensiwn. Cyhoeddir yr enillwyr ar 15 Rhagfyr 2022. Y categorïau ar y rhestr fer yw:

i) Cronfa CPLlL y Flwyddyn (Asedau dan £2.5 biliwn ar 31 Mawrth 2022).
ii) Strategaeth Buddsoddi CPLlL y Flwyddyn.
iii) Y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Orau.

**c) Gwobrau Estates Gazette 2022**

Cyhoeddodd yr Aelod Llywydd fod Dinas a Sir Abertawe wedi cyrraedd y rhestr fer yng nghategori Dinas y Flwyddyn Gwobrau Estates Gazette 2022. Nod y Wobr yw dathlu dinasoedd y DU a'r gwaith y maen nhw'n ei wneud i greu lleoedd anheddol a llwyddiannus. Cyhoeddir yr enillwyr ar 2 Tachwedd 2022.

**ch) Y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Tai Cymru 2022**

Cyhoeddodd yr Aelod Llywyddol fod Cyngor Abertawe wedi cyrraedd y rhestr fer mewn sawl categori ar gyfer Gwobrau Tai Cymru 2022. Mae'r Gwobrau'n dathlu rhagoriaeth o fewn sector Tai Cymru. Cyhoeddir yr enillwyr ar 18 Tachwedd 2022. Y categorïau ar y rhestr fer yw:

i) **Categori:** Darparu Cartrefi o Ansawdd Uchel.
**Prosiect ar y rhestr fer**: Adeiladu Cartrefi Gwell. Hillview.
**Sefydliad**: Cyngor Abertawe

ii) **Categori:** Tîm Tai y Flwyddyn.
**Prosiect ar y rhestr fer:** Tîm Rhenti Tai.
**Sefydliad**: Cyngor Abertawe.

iii) **Categori:** Gweithio mewn Partneriaeth.
**Prosiect ar y rhestr fer:** Safon Abertawe – Darparu Tai Carbon Isel Fforddiadwy ar gyfer y Dyfodol. Cyflwynwyd gan Ysgol Pensaernïaeth Cymru (YPC).
**Sefydliad**: Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE), Ysgol Pensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd a Chyngor Abertawe.

iv) **Categori:** Cynaliadwyedd mewn Tai.
**Prosiect ar y rhestr fer**: Ôl-osod Tŷ Cyfan i'w wneud yn fwy Ynni Effeithlon mewn 6 byngalo teras yn Abertawe er mwyn cyrraedd targedau carbon sero. Cyflwynwyd gan Ysgol Pensaernïaeth Cymru (YPC).
**Sefydliad**: Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE), Ysgol Pensaernïaeth Cymru a Chyngor Abertawe.

**d) 26 Ionawr Cyfarfod y Cyngor**

Cyhoeddodd yr Aelod Llywyddol, yn dilyn ymgynghoriad rhyngddi hi ac arweinwyr y grŵp gwleidyddol, ac oherwydd ansicrwydd ynglŷn â chyhoeddiadau'r gyllideb, y byddai'r cyfarfod yn cael ei symud yn ôl wythnos i 2 Chwefror 2022.

Byddai angen trefnu cyfarfod ychwanegol o'r cyngor hefyd ym mis Ionawr, a byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddau gyfarfod yn cael ei hanfon at Aelodau gan y Gwasanaethau Democrataidd maes o law.

**dd) Blancedi Cynnes ar gyfer Wcráin**

Cyhoeddodd yr Aelod Llywyddol fod amryw o archfarchnadoedd lleol yn parhau i gasglu eitemau, a gwerthfawrogir unrhyw roddion.

## 74. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### a) Y Diweddaraf am y Gyllideb

Amlinellodd yr Arweinydd fod y sefyllfa bresennol yn hynod bryderus o ran cyllid i Lywodraeth Leol yng Nghymru. Mae CLlC wedi amcangyfrif y gallai'r twll du ariannol ar draws Cymru fod yn £750 miliwn.

Mae hyn yn cael ei yrru i raddau helaeth gan ddau ffactor sef y bydd llawer o'r cytundebau ynni presennol sydd gan wahanol gynghorau a chyrff cyhoeddus ar hyn o bryd yn dod i ben yn gynnar y flwyddyn nesaf, sef yr un pryd ag y mae'r cap presennol sy'n cael ei ddarparu gan y DU hefyd yn dod i ben.

Dywedodd y byddai gwybodaeth ac eglurder pellach yn cael eu darparu ar 17 Tachwedd, gobeithio.

Os nad yw'r cap presennol yn cael ei estyn gallai bil ynni'r cyngor godi o £5m i £20m.

Yn ychwanegol at hynny mae dyfarniadau cyflog i staff hefyd yn agos at gael eu cytuno. Mae'r arian ar gyfer y dyfarniadau cyflog hyn fel arfer yn cael ei ariannu gan Lywodraethau'r DU a Chymru ond ar hyn o bryd nid oes ymrwymiad ar y cyllid ychwanegol hwn a allai roi £10m o bwysau ychwanegol ar gyllideb yr awdurdod hwn.

Ar ben hynny mae pob cyngor, busnes ac unigolyn yn wynebu pwysau ar hyn o bryd o ran chwyddiant.

**b) Cronfa Adferiad Economaidd**

Oherwydd y pwysau cyllidebol a amlinellir uchod, dywedodd ei fod wedi cytuno ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid y byddai ceisiadau i'r gronfa uchod yn cael eu hatal.

Caiff ceisiadau sydd wedi'u cyflwyno eu harchwilio a'u trafod yn unol â'r gwahanol opsiynau cyllido sydd ar gael, a bydd yr Aelodau'n cael gwybod a fyddant yn mynd ymlaen neu'n cael eu hatal am y tro.

**c) Gwobrau Estates Gazette**

Amlinellodd ei fod wedi mynd i'r gwobrau neithiwr lle'r enwebwyd Abertawe ar gyfer rownd derfynol y wobr 'Dinas y Flwyddyn'. Yn anffodus nid oedd Abertawe'n llwyddiannus, a Birmingham, a oedd wedi cynnal gemau'r Gymanwlad yn gynharach yn y flwyddyn, enillodd y wobr.

Dyma'r tro cyntaf i Abertawe gael ei henwebu am wobr mor fawreddog a diolchodd i'r Swyddogion am y gwaith yr oedent wedi'i wneud i gyflawni'r prosiectau amrywiol ledled y ddinas.

**ch) Gyda'n Gilydd dros y Nadolig**

Amlinellodd yr Arweinydd y bydd Cyngor Abertawe, mewn partneriaeth â JR Events & Catering, yn rhedeg menter Gyda'n Gilydd dros y Nadolig unwaith eto eleni. Nod y digwyddiad yw darparu cinio Nadolig am ddim i'r rheini sy'n ddigartref, yn unig neu mewn angen. Caiff gynnal rhwng 12pm a 3.00pm ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022 yn Neuadd Brangwyn. Anogir cynghorwyr ac eraill i wirfoddoli drwy e-bostio events@jr-eventsandcatrering.co.uk

**d) Tywydd Garw Diweddar**

Talodd deyrnged i'r gwaith a wnaed gan staff y cyngor yn gyffredinol yn ystod y tywydd garw diweddar gan amlinellu'r galw enfawr am wasanaethau oherwydd y swm eithafol o law a ddisgynnodd mewn cyfnod mor fyr, gan arwain at lifogydd mewn rhai ardaloedd. Cafwyd rhai problemau o ran y gallu i ymateb i'r nifer enfawr o alwadau/e-byst a dderbyniwyd mewn cyfnod mor fyr, a bydd hyn yn cael ei adolygu.

Yn anffodus, oherwydd rhagolygon tywydd garw ar gyfer y penwythnos, dywedodd na fydd modd cynnal y Digwyddiad Tân Gwyllt ar 5 Tachwedd ym Mae Abertawe ond bydd y Tîm Digwyddiadau Arbennig yn canolbwyntio nawr ar gynnal Gorymdaith y Nadolig nos Sul 20 Tachwedd.

## 75. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 76. Deilliannau Arolwg Estyn ar gyfer Llywodraeth Leol Gwasanaethau Addysg yn Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Sgiliau adroddiad a oedd yn amlinellu’r canlyniadau sy'n deillio o Arolygiad Estyn 2022 ar gyfer Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn Abertawe, ac yn manylu arnynt.

**Penderfynwyd** nodi canfyddiadau Arolygiad Estyn 2022.

## 77. Gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau ac i ystyried yr argymhelliad i roi terfyn ar y defnydd o denantiaethau rhagarweiniol.

**Penderfynwyd**

1) Nodi goblygiadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

2) Bod y cyngor yn cytuno i roi terfyn ar y defnydd o Denantiaethau Rhagarweiniol ac yn caniatáu
i'r holl Denantiaid Rhagarweiniol presennol dderbyn contractau Meddiannaeth Diogel ar ôl rhoi'r Ddeddf Rhentu Cartrefi ar waith.

3) Rhoi Contractau Meddiannaeth Diogel i bob tenant newydd Cyngor Abertawe o 1 Rhagfyr 2022.

#Sylwer: Cytunodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau i gynnal Seminar Aelodau i edrych ar y materion ymddygiad gwrthgymdeithasol a godwyd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

## 78. Polisi Trwyddedu HMO.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn cyflwyno'r gofyniad i gynnwys adendwm ym Mholisi Trwyddedu HMO 2020 o ran Ward y Glannau.

**Penderfynwyd** rhoi cymeradwyaeth i gynnwys adendwm yn y Polisi Trwyddedu HMO presennol i newid enwau'r ward yn y polisi i Uplands, Castell, St Thomas a'r

Glannau fel a nodir yn Atodiadau B, C, D ac E i'r adroddiad ac ychwanegu'r atodiadau hyn at y Polisi Trwyddedu HMO.

**79. Rhyddid Anrhydeddus Dinas a Sir Abertawe - Kevin Johns MBE.**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad a oedd yn gofyn i’r aelodau ystyried rhoddi’r teitl Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Kevin Johns MBE.

**Penderfynwyd**

1) Rhoddi'r teitl Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Kevin Johns MBE.

2) Cynnal cyfarfod seremonïol o'r cyngor ar 8 Rhagfyr 2022 am 2.00pm i roddi'r teitl Rhyddid er Anrhydedd.

**80. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A’**

Cyflwynwyd un deg pedwar (14) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A.

Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 7**
Gofynnodd y Cynghorydd Stuart Rice gwestiwn mewn perthynas â'r dadansoddiad o fuddsoddiadau sy'n ymwneud â'r gwahanol brosiectau y mae'r cyngor yn eu hariannu neu sy'n dod o'r sector preifat neu gyhoeddus.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

**Cwestiwn 10**
Gofynnodd y Cynghorydd Angela O'Connor gwestiwn mewn perthynas â chyflogi'r swyddog cyswllt cymunedol a pha gam o'r broses ydyn ni wedi'i gyrraedd gyda'r penodiad ar hyn o bryd.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

2) ‘Cwestiynau Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'

Cyflwynwyd tri (3) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

## 81. Hysbysiad o Gynnig - Mabwysiadu Diffiniad o Islamoffobia.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd L S Gibbard a'i eilio gan y Cynghorydd R C Stewart.

Mae Abertawe’n falch o'i hamrywiaeth ac mae ganddi hanes cryf o hyrwyddo cydlyniant a chroesawu pobl o bob cwr o'r byd. Mae ei phreswylwyr bob amser wedi dod ynghyd a chefnogi’i gilydd yn y frwydr yn erbyn hiliaeth a gwahaniaethu o bob math.

Mae'r cyngor hwn felly’n croesawu, yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu diffiniad APPG (Grŵp Hollbleidiol Seneddol) o Islamoffobia[1], gan gynnwys ei holl enghreifftiau a ddyfynnir yn llawn fel a ganlyn:

"MAE GWRAIDD ISLAMOFFOBIA MEWN HILIAETH AC MAE'N FATH O HILIAETH SY'N TARGEDU MYNEGIADAU O FWSLEMIAETH NEU'R HYN SY'N CAEL EI AMGYFFRED FEL MWSLEMIAETH.

Gallai enghreifftiau cyfoes o Islamoffobia mewn bywyd cyhoeddus, y cyfryngau, ysgolion, y gweithle, ac mewn cyfarfyddiadau rhwng crefyddau a'r rheini nad ydynt yn grefyddau yn y maes cyhoeddus, gan ystyried y cyd-destun cyffredinol, gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Alw am, cynorthwyo, annog neu gyfiawnhau lladd neu niweidio Mwslimiaid yn enw ideoleg hiliol/ffasgaidd, neu farn eithafol ar grefydd.
- Gwneud honiadau celwyddog, diraddiol neu ystrydebol am Fwslimiaid fel y cyfryw, neu am Fwslimiaid fel grŵp cyfunol megis, yn enwedig ond heb fod yn gyfyngedig i, gynllwynion am ymdreiddiad Mwslimaidd mewn gwleidyddiaeth, llywodraeth neu sefydliadau cymdeithasol eraill; y myth fod gan hunaniaeth Fwslimaidd dueddiad unigryw ar gyfer terfysgaeth a honiadau o 'fygythiad' demograffig a achosir gan Fwslimiaid, neu o Fwslimiaid yn 'cymryd drosodd'.
- Cyhuddo Mwslimiaid fel grŵp o fod yn gyfrifol am ddrygioni go iawn neu ddychmygol a gyflawnwyd gan un person Mwslimaidd neu grŵp o unigolion Mwslimaidd, neu hyd yn oed am weithredoedd a gyflawnwyd gan bobl nad ydynt yn Fwslimiaid.
- Cyhuddo Mwslimiaid fel grŵp, neu wladwriaethau sy'n bennaf Fwslimaidd, o ddyfeisio neu or-ddweud Islamoffobia, glanhau ethnig neu hil-laddiad yn erbyn Mwslimiaid.
- Cyhuddo dinasyddion Mwslimaidd o fod yn fwy ffyddlon i'r 'Ummah' (cymuned Fwslimaidd drawswladol) neu i wledydd eu genedigaeth neu i flaenoriaethau honedig Mwslimiaid ledled y byd, nag i fuddiannau eu cenhedloedd eu hunain.
- Gwrthod yr hawl i hunanbenderfyniad i boblogaethau Mwslimaidd e.e., drwy honni mai ymgais terfysgol yw bodolaeth Palesteina neu Kashmir annibynnol.
- Defnyddio safonau dwbl drwy ddisgwyl i Fwslimiaid ymddwyn mewn ffordd nad yw'n ddisgwyliedig nac yn cael ei mynnu gan unrhyw grwpiau eraill mewn cymdeithas, e.e. profion ffyddlondeb.
- Defnyddio'r symbolau a'r delweddau sy'n gysylltiedig ag Islamoffobia clasurol.
- Dal Mwslimiaid i gyfrif ar y cyd am weithredoedd unrhyw wladwriaeth fwyafrifol Fwslimaidd, boed yn seciwlar neu'n gyfansoddiadol Islamaidd.

Felly, galwn ar:

1. Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at lywodraeth y DU yn gofyn iddynt wrando ar gymunedau Mwslimaidd a'r grŵp trawsbleidiol o ASau ac arglwyddi.
2. Y Cyngor i fabwysiadu'r diffiniad hwn o Islamoffobia yn ffurfiol, sy'n dynodi gwahaniaethu yn erbyn Mwslimiaid fel math o hiliaeth.

Yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y Cyngor sef "Pleidlais", gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cofnodwyd y pleidleisio fel a ganlyn:

| **O blaid (59 o gynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| C Anderson | C A Holley | P M Matthews |
| S Bennett | P R Hood-Williams | J D McGettrick |
| P N Bentu | B Hopkins | H M Morris |
| P M Black | D H Hopkins | F D O'Brien |
| J P Curtice | L James | A J O'Connor |
| P Downing | Y V Jardine | C L Philpott |
| C R Doyle | A J Jeffery | J E Pritchard |
| M Durke | D H Jenkins | S Pritchard |
| C R Evans | J W Jones | S J Rice |
| C M J Evans | L R Jones | K M Roberts |
| V M Evans | M H Jones | B J Rowlands |
| E W Fitzgerald | S M Jones | R V Smith |
| R A Fogarty | S A Joy | A H Stevens |
| N Furlong | H Lawson | R C Stewart |
| L S Gibbard | A S Lewis | L G Thomas |
| F M Gordon | M B Lewis | M S Tribe |
| K M Griffiths | W G Lewis | G D Walker |
| H J Gwilliam | P Lloyd | L V Walton |
| J A Hale | M W Locke | T M White |
| V A Holland | N L Matthews | |

| **Yn erbyn (0 Cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| - | - | - |

| **Ymwrthod (0 Cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| - | - | - |

| **Wedi gadael y cyfarfod oherwydd datganiad o fudd (0 Cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd** | **Cynghorydd** | **Cynghorydd** |
| - | - | - |

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.45 pm

**Cadeirydd**